OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3137

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013

Diwygio

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn y man priodol, mewnosoder—

"ystyr "gwaharddiad cyfnod penodol" ("*fixed period exclusion*") mewn perthynas â disgybl yw disgybl sydd wedi ei wahardd am gyfnod neu gyfnodau penodol, am resymau disgyblu, o'r ysgol y gwneir cais iddi o dan reoliad 3 neu 5;".

(3) Yn Rhan 3 o Atodlen 2 yn lle paragraff 1 rhodder—

"**1.** Yr wybodaeth ganlynol am bob disgybl sydd wedi ei wahardd yn barhaol o'r ysgol ac yr oedd ei ddyddiad gwahardd parhaol yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst cyn y dyddiad y gwneir y cais am wybodaeth

(a) rhif unigryw cyfredol disgybl;

(b) rhif unigryw cyfredol dysgwr, os yw'n hysbys;

(c) cyfenw;

(ch) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(d) enw canol, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(dd) rhyw;

(e) dyddiad geni;

(f) y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad parhaol;

(ff) y rheswm dros y gwaharddiad; ac

(g) a oedd y gwaharddiad yn waharddiad parhaol neu'n waharddiad cyfnod penodol.

2. Yr wybodaeth ganlynol am bob disgybl sydd wedi ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol ac yr oedd ei ddyddiad gwahardd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Awst cyn y dyddiad y gwneir y cais am wybodaeth

(a) rhif unigryw cyfredol disgybl;

(b) rhif unigryw cyfredol dysgwr, os yw'n hysbys;

(c) cyfenw;

(d) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(e) enw canol, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(f) rhyw;

(g) dyddiad geni;

(**1**) O.S. 2007/3562 (Cy.312) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2325 (Cy.242).

(h) y dyddiad y dechreuodd y gwaharddiad;

(i) nifer y sesiynau ysgol y mae'r gwaharddiad yn gymwys iddynt;

(j) y rheswm dros y gwaharddiad; ac

(k) a oedd y gwaharddiad yn waharddiad parhaol neu'n waharddiad cyfnod penodol.".